


Rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol

Gweithdai Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol – Dogfen yn Crynhoi'r Allbwn

1 Awst 2017

Cyd-destun

- Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol ar fodel gweithredu'r dyfodol ar gyfer rheoleiddio bwyd gyda chyfran mor eang o awdurdodau lleol (ALLau) â phosibl
- Roedd y ffocws ar geisio adborth penodol a mewnbynnu i agweddau allweddol o fodel rheoleiddio'r dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â Chofrestru, Segmentu, Strategaethau Arolygu Cenedlaethol, a'r cysyniad o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig
 - Mae'r agweddau hyn yn dal i gael eu datblygu, ac ni fwriadwyd i'r syniadau a gyflwynwyd fod yn gynhyrchion terfynol
- Cynhaliwyd trafodaethau wedi'u hwyluso mewn grwpiau trafod bach i gasglu adborth gan randdeiliaid yn ystod y gweithdai
- Mae'r deunydd cyflwyno a ddefnyddiwyd yn y gweithdai ar gael, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r dogfennau hyn
- NI fwriedir i'r ddogfen hon fod yn gofnod o'r trafodaethau, ond yn grynodedeb o'r themâu craidd.



Themâu eang

- Roedd ymatebion i'r newidiadau posibl i Gofrestru Manylach a Segmentu yn eithaf cyson ar draws y rhanbarthau
 - Cafodd pwysigrwydd casglu data, diweddariadau, ac integreiddio eu cydnabod yn eang, a'r egwyddor o ddyrannu adnoddau yn seiliedig ar risg ei gefnogi ac eisoes yn cael ei weithredu gan awdurdodau unigol
 - Mynegwyd dyhead cyffredinol am ragor o opsiynau Cymell a Gorfodi – un ai drwy Drwydded i Fasnachu neu ddulliau eraill
 - Cytundeb eang y dylai grwpiau penodol gael eu segmentu allan o gyfundrefnau arolygu a raglennir
- Mae'r CSHB yn rhaglen graidd. Bydd gofyn ei hystyried yn ofalus a'i hintegreiddio i mewn i unrhyw newidiadau
 - Dylid defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu yn y broses, a dylai ystyried unrhyw effaith ar y gallu i gynnal rhaglen y CSHB (drwy lai o arolygiadau, Strategaeth Arolygu Genedlaethol, Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig ac ati) wrth symud ymlaen
 - Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, lle mae deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i arddangos sgoriau, roedd gwahaniaethau sylweddol ar y trafodaethau ar sicrwydd preifat wedi'i reoleiddio
- Mae'r Strategaeth Arolygu Genedlaethol yn broses gymhleth o bosibl, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth eang o gwestiynau a sylwadau a gasglwyd yn ystod y gweithdai.
 - Bydd gofyn gweithredu mesurau goruchwylio a chyfathrebu cadarn – gan gynnwys addysg barhaus ar beth mae'n ei olygu heddiw ac yn y dyfodol.
- Roedd amrywiaeth yn lefel y gefnogaeth ar gyfer y cysyniad o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig, a hynny o un rhanbarth i'r llall.
 - Pan fo'r gyfraith yn mynnu bod ALLau yn cynnal arolygiadau er mwyn pennu sgoriau'r CSHB, mae rhwystr i'r modd y gellir gweithredu'r cysyniad o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig.
 - Yn fras, roedd y pryderon a fynegwyd yn aml yn debyg, yr hyn a oedd yn dueddol o amrywio oedd cred y rheiny a oedd yn cymryd rhan yn y gallu i reoli'r risgiau yn ogystal â gwerth y manteision mesuradwy y gallai'r rhaglen eu cyflawni.
- *Noder: Mae 'TNT Shipment Services' wedi colli rhai dogfennau a bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn y broses ddatblygu pan gânt eu dychwelyd*
 - *Mae'r wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen hon yn adlewyrchiad o'r amrywiaeth eang o sylwadau a phryderon a godwyd gan ALLau, ac felly nid yw wedi'i chyfyngu i atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a holwyd*
 - *O ystyried y pryderon penodol a godwyd gan Gymru a Gogledd Iwerddon, cafodd sleidiau penodol eu cynnwys i dynnu sylw at negeseuon gan yr ALLau hyn*

Themâu'r sesiynau

Cofrestru Manylach

- Codi ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru, a'r manteision
- Integreiddio'r broses hon â ffynonellau eraill / data
- Ystyried strategaethau gorfodi mwy priodol
- Datblygu strategaethau cymell cefnogol
- Ei gwneud yn glir pwy sy'n gorfod cofrestru (h.y. beth yw busnes bwyd)
- Sefydlu'r cysylltiadau â chanolwyr i ddal busnesau newydd yn gynt
- Datblygu strategaeth i ddiweddarau data yn yr hirdymor
- Cadw pethau'n syml: adeiladu ar enghreifftiau sydd wedi'u datblygu'n dda

Segmentu

- Meini prawf craidd a awgrymwyd yn weddol gyson
 - Hanes cydymffurfio, risg gynhenid, sgôr CSHB ac ati.
- Angen i ddangosyddion risg lefel uwch fod yn glir
- Bydd angen datblygu'r model risg yn ofalus
- Nifer o gwestiynau agored ar sut y bydd yn effeithio ar adnoddau ALLau
- Bydd gwella'n barhaus o ran y modelu risg yn allweddol
- Dylid mabwysiadu meddylfryd "ymddiried ond gwirio"
- Gellir nodi categorïau cychwynnol o fusnesau risg is yn gyflym

Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- Bydd cyfathrebu clir a thryloywder yn hanfodol gan fod hon yn broses gymhleth iawn
- Mae'r meini prawf drafft yn dda ond mae lle i wella
- Mae gallu mesurau rheoli gweithredwyr busnesau bwyd lleol i ddilyn gweithdrefnau/polisïau cenedlaethol yn bryder
- Bydd angen cysondeb ar draws cynlluniau i feithrin ymddiriedaeth
- Rhaid mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag adnoddau a pharhad
- Hoffi gweld proses sy'n gwella'n barhaus gan y rheoleidiwr a'r busnes bwyd i ddatblygu strategaeth dros amser
- Angen rhagor o waith i feithrin hyder yn y system

Archwiliwr Rheoleiddio Ardystiedig

- Pryderon cryf am wrthdaro buddiannau posibl ac annibyniaeth
- Cwestiynau agored ar gynnal mesurau trosolwg
- Nid yw'r effaith ar adnoddau ALLau yn hysbys, ond mae'n bryder
- Gall fod yn anodd diffinio a rheoli'r broses 'achredu'
- Cwestiynau ar ddefnydd disgwylidig gan y gymuned fusnes
- Bydd gofyn datblygu proses gyfathrebu ac apelio gref
- Angen diffinio risg a chyfrifoldeb gorfodi yn well

Manylion y Sesiwn

Cofrestru Manylach

- Mae 'Trwydded i Fasnachu' yn parhau i fod yn opsiwn, gan ddibynnu ar lwyddiant Cofrestru Pellach a gwerthusiad o'r ymchwil (ar ôl ymadael â'r UE)
- Bydd dull newydd yn ymwneud â chasglu'r wybodaeth gywir ar yr amser cywir a'i diweddarau dros amser
- Bydd trosolwg effeithiol gan yr Awdurdod Cymwys Canolog yn galluogi rheoli risg a phenderfyniadau rheoleiddio mwy strategol
- Rhoi cefnogaeth ychwanegol i fusnesau newydd i'w helpu i gydymffurfio
- Bydd yr ateb yn un digidol
- Cyfle i gryfhau'r system gofrestru bresennol
 - Symud oddi wrth 'Un dull cyffredin i bawb'
 - Ymgorffori gwiriadau a mesurau diogelu priodol
 - Cynyddu cyfran y busnesau bwyd sy'n cofrestru'n rhagweithiol
 - Cynyddu llif yr wybodaeth i reoleiddwyr bwyd a gyda systemau rheoleiddio eraill os yw'n briodol e.e. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, y Swyddfa Gartref, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
 - Cynyddu'r arfer o rannu gwybodaeth am gofrestru busnesau bwyd ar draws ffiniau ALLau



Cwestiynau a holwyd

- Sut allwn ni ddal busnesau bwyd newydd yn gynt?
- Sut allwn ni annog gweithredwyr busnesau bwyd i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'w gweithrediadau?
- Sut allwn ni greu amgylchedd a fyddai'n annog gweithredwyr busnesau bwyd i gofrestru eu busnes yn gynt? e.e. defnyddio arfau gorfodi presennol/ymgyrchoedd cyfathrebu/newid i'r Cod Ymarfer

Cofrestru Manylach

- Sut allwn ni ddal busnesau bwyd newydd yn gynt?
- Sut allwn ni annog gweithredwyr busnesau bwyd i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'w gweithrediadau?
- Sut allwn ni greu amgylchedd a fyddai'n annog gweithredwyr busnesau bwyd i gofrestru eu busnes yn gynt? e.e. defnyddio arfau gorfodi presennol/ymgyrchoedd cyfathrebu/newid i'r Cod Ymarfer

Codi ymwybyddiaeth

- Datganiadau cyson a chryf bod angen ymwybyddiaeth ehangach o gyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd i gofrestru
- Tynnu sylw at well defnydd o'r cyfryngau cymdeithasu a sianeli digidol
 - Gellir gwella sianeli cyfathrebu presennol (e.e. gwefan, Twitter ac ati)
 - Mae hyn ar gyfer cyfathrebu allanol, ond hefyd ar gyfer casglu gwybodaeth a monitro gweithgareddau
- Ehangu rhaglenni ar gyfer cyhoeddiadau masnach a lleol
- Dylid integreiddio cyfleoedd i ddysgu gan grwpiau eraill – defnyddir ymgyrchoedd cofrestru ar draws y diwydiant
- Argymhell ymchwil defnyddwyr ar pam nad ydynt yn cofrestru – yn ogystal, data ar fusnesau nad ydynt yn cofrestru i sefydlu a yw hyn yn broblem

Integreiddio â chyrrff allanol

- Nid problem i'r ASB yn unig yw cofrestru busnesau, ond her ehangach i'r llywodraeth – sut ydym ni'n manteisio ar waith eraill?
- Hoffwn integreiddio ag asiantaethau eraill y llywodraeth (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - TAW, Tŷ'r Cwmnïau, asiantaethau cynllunio lleol, cyfraddau busnes, asiantaethau rhanbarthol, BBFA, model DVLA ac ati) i ddarparu data
 - Gallai integreiddio creadigol gydag asiantaethau eraill y llywodraeth / chyrrff y diwydiant sbarduno darlun cydymffurfio ehangach
- Partneriaethau gyda grwpiau diwydiant i gasglu data (darparwyr yswiriant, gwefannau adolygu, dosbarthu bwyd, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, grwpiau masnach, cyfrifwyr, banciau, cyflenwyr, landlordiaid, ac ati)
- Os yw partneriaid allanol yn gweld gwerth masnachol wrth weithio gyda busnesau cofrestredig, efallai y byddant yn hybu'r achos dros gofrestru

Gwella gorfodi

- Cosbau gorfodi cyfyng neu heb eu defnyddio am beidio â chofrestru – awdurdodau eisiau gwell cymhelliant
- Cafodd hysbysiadau cosb benodedig eu crybwyll sawl gwaith – ffafrio cael proses o roi tocynnau o'i gymharu ag achos llys
- Newid perchnogaeth yn parhau i fod yn risg critigol – opsiwn o gymryd blaendal a fyddai'n cael ei dalu'n ôl wrth newid perchnogaeth
- Os yw'r awdurdod yn darganfod newidiadau y dylai'r gweithredwyr wedi'u diweddarau, byddant yn hoffi'r gallu i gosbi
- Trwydded i Fasnachu yn cael ei weld fel newid materol er gwell
 - Gallai cysylltu â rhaglen amnest lyfnhau'r broses o newid

Datblygu cymhelliannau

- Dylai cymelliannau cadarnhaol fod yn rhan greiddiol o'r broses gofrestru wedi'u ategu gan well gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer busnesau sy'n dechrau o'r newydd
 - Gellir ystyried cymhelliannau ariannol, ond gallant greu'r math anghywir o ymddygiad neu ganfyddiad
- Tystysgrif cofrestru neu raglen debyg i greu mantais PR tebyg i'r CSHB
 - Posibilrwydd o wneud rhagofyniad gorfodol ar gyfer y CSHB mewn rhai rhanbarthau
- Sut mae diweddarau data rhagweithiol yn cael ei adlewyrchu yn eu rhaglen sicrwydd – a fydd mantais arolygu?
- Posibl darparu gwasanaeth cyngor "am ddim" i ddenu busnesau bwyd?
- Cynlluniau datblygu i roi gweithredwyr ar y trywydd iawn i gael sgoriau CSHB o '5'

Cofrestru Manylach

- Sut allwn ni ddal busnesau bwyd newydd yn gynt?
- Sut allwn ni annog gweithredwyr busnesau bwyd i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'w gweithrediadau?
- Sut allwn ni greu amgylchedd a fyddai'n annog gweithredwyr busnesau bwyd i gofrestru eu busnes yn gynt? e.e. defnyddio arfau gorfodi presennol/ymgyrchoedd cyfathrebu/newid i'r Cod Ymarfer

Gwneud yn glir pwy sy'n cofrestru

- Mae diffiniad clir o beth sy'n gwneud Gweithredwr Busnes Bwyd yn hanfodol
 - e.e. A oes angen i warchodwr plant sy'n paratoi brechdanau gofrestru? Beth am grŵp yr eglwys i lawr y stryd?
 - Sut mae lefel y risg yn gymwys – datgelu llai o ddata ar wahanol lefelau neu a yw'r gofyniad i gofrestru yn diflannu?
- A ddylen ni ddisgwyl cofrestru o ryw fath ar gyfer unrhyw un sy'n delio â bwyd - a yw ein dull wedi'i gefnogi gan ddata?
- Mae pryd mae busnes yn cofrestru hefyd yn allweddol
 - Mae busnesau sy'n cofrestru ond sydd byth yn gweithredu yn creu 'overhead' ar y system

Rheoli'r broses o ddiweddarau data

- Angen newid meddylfryd o ran cofrestru gweithredwyr busnesau bwyd
 - Pam nad yw'n cael ei ystyried fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu Dŷ'r Cwmnïau (mewn perthynas â gorfodi)?
- Neges glir mai cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd yw hyn
- Os mai diweddarau data yw'r ffocws craidd, mae ymwybyddiaeth yn dod yn fater mwy hanfodol
- Llauer o weithredwyr busnesau bwyd yn mynd a dod, ac mae'n rhaid rheoli'r data o amgylch hyn
 - Mae'n rhaid tracio newidiadau mewn perchnogaeth, math o fwyd ac ati ac mae gofyn i fusnesau wybod pa ddata a ddylai arwain at ddiweddariad
- Mae angen ystyried atebolrwydd a gorfodi ar gyfer busnesau nad ydynt yn diweddarau

Manteisio ar wybodaeth leol


- Dylai data ALLau barhau i fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth – sut fydd hyn yn cael ei integreiddio i'r broses?
- Mae gan swyddogion gorfodi lleol ddarlun ehangach o'r busnes – allwn ni sefydliadu'r wybodaeth hon?
- Sut ydym ni'n cydbwysu preifatrwydd a phryderon diogelwch ag anghenion rhannu data?
- Pa wersi gellir eu dysgu gan ALLau sydd eisoes yn peilota rhaglenni newydd
- Ystyriwch weithio gyda gweithredwyr busnesau bwyd cofrestredig i nodi busnesau nad ydynt wedi'u cofrestru – problemau ymddiried a chanfyddiad posibl

Dylunio er hwylustod a pherfformwyr uchel

- Trwydded i Fasnachu o hyd yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau
 - Modelau Codi Tâl ac Ariannu Cynaliadwy yn cael eu hystyried yn brosesau craidd wrth edrych tua'r dyfodol
- Cwestiwn agored ar sut y bydd codi tâl yn effeithio ar gofrestru
 - Gall Trwydded i Fasnachu sy'n orfodol yn gyfreithiol gael effaith wahanol na chodi tâl heb Drwydded i Fasnachu
- Mae'n rhaid i hwn gael ei weld fel rhywbeth ar wahân i faich rheoleiddio - cysylltiadau â chymhelliannau. Mae'n hanfodol ei fod yn hawdd ei ddefnyddio (iaith ac ati)
- Bydd proses gofrestru gyson yn hanfodol - yn arbennig o fewn gwledydd i atal "loteri cod post", ond ar draws gwledydd hefyd
- Ni all fod yn gymhleth, ac mae'n rhaid iddi fod yn gymesur i'r busnes

Segmentu

- Y bwriad yw creu system reoleiddio gyda dull mwy soffistigedig o segmentu busnesau
 - Mae'n bosibl nad oes gan fusnesau risg isel raglen arolygu ar waith
 - Efallai y bydd busnesau risg uchel bob amser yn destun arolygiad
 - Dod yn broses sylfaenol a pharhaus. Helpu i ddyrannu adnoddau yn effeithlon a gwella canlyniadau diogelwch
- Datblygu system seiliedig ar reolau wedi'i chefnogi gan fodel ystadegol
 - Hanfodol adnabod lefelau'r pethau hynny sy'n achosi risg
 - Bydd hanes cydymffurfio yn ffactor pwysig, ond bydd gofyn gweithio ag ALLau i wella sgoriau risg
- Bydd datblygiadau'n cael eu sbarduno gan egwyddorion allweddol penodol:
 - Datblygiad iteraidd
 - Mynd yn gynyddol gymhleth
 - Defnyddio mwy fyth o ffynonellau data
 - Gweithgor yn cynnwys yr ASB, ALLau, y diwydiant ac arbenigwyr eraill
 - Gwahodd awdurdodau i roi cynnig ar y dull hwn yn y 'byd go iawn'
- Ffocws ar annog gwelliannau drwy ddefnyddio data a dadansoddeg – adnodd sy'n cefnogi



Cwestiynau a holwyd

- Os yw'r dull segmentu yn cymryd busnes allan o raglen arolygiadau arferol, pa fath o fusnes ddylai hwn fod, a pham?
- Ar ba lefel gydymffurfio y dylid gweithredu 'cydnabod cydymffurfiaeth barhaus'?

Segmentu

- Os yw'r dull segmentu yn cymryd busnes allan o raglen arolygu arferol, pa fath o fusnes ddylai hwn fod, a pham?
- Ar ba lefel gydymffurfio y dylid gweithredu'r egwyddor 'cydnabod cydymffurfiaeth barhaus'?

Meini prawf craidd ar gyfer datblygu model segmentu

- Gellir defnyddio hanes cydymffurfio a therfynau sydd wedi'u nodi'n glir i yrru cyfundrefn arolygu llai
 - Hanes hirdymor o gydymffurfio parhaus cyn lleihau arolygiadau – 3 blynedd neu 3 cylch arolygu efallai?
- Pwysig i ddiweddarau dealltwriaeth o'r risg gynhenid mewn busnes yn barhaus (h.y. math o fwyd/categori)
- Dylid integreiddio sgôr y CSHB i'r model risg
 - Beth yw'r effaith ar y CSHB os ydym ni'n lleihau neu'n cael gwared ar arolygiadau?
- Proses ddiogelwch clir, cofnodedig, dangosadwy sydd wedi'i gwirio
- Mae newidiadau mewn perchnogaeth yn hollbwysig (gall achosi newid awtomatig i'r risg) ond yn anodd ei dracio – sut i reoli hyn?

Datblygu model risg

- Mae'n rhaid i raglen ddadansoddeg wedi'i gyrru gan ddata fod yn sail i'r broses
- Safonau a meini prawf clir - llywodraeth a phroses ddatblygu agored
- Cwestiwn agored ar bwy sy'n "berchen" ar y model a'r data - ble mae adnoddau / cyfrifoldeb y diwydiant yn integreiddio (goblygiadau FOI?)
- Pryderon ynghylch sut i gadw/integreiddio gwybodaeth ddynol yn y model
- A fydd model pwyntiau yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi - yn ôl i sut y caiff risg ei mesur
- Dylid trin hylendid a safonau ar wahân
 - Mae'n bosibl bod y modelau risg ar gyfer y ddau beth yn gwrthdaro

Dangosyddion cydymffurfio y gellir eu defnyddio i segmentu

- Gellir ystyried sgoriau o dan 5 yn y CSHB i fod yn fflagiau coch
 - Consensws bod sgôr o 3 yn rhy isel, ond gall sgôr o 4 fod yn iawn
 - Os defnyddir yr elfen hon, sut ellir gwirio busnesau sydd wedi dechrau cydymffurfio eto?
- Mae angen casglu a chadarnhau cwynion gan gwsmeriaid – o ba fffynonellau daw'r rhain ac a ydynt wedi'u pwysoli?
- Oes dangosyddion risg trydyddol y gellir eu defnyddio (h.y. cysylltu â chydymffurfiaeth Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Tŷ'r Cwmnïau, yswiriant ac ati)?
- Bydd gan fewnforwyr a chynhyrchwyr wahanol safonau
 - Sut bydd modelau risg yn cael eu hegluro a'u cyfathrebu ar draws gwahanol fathau o fusnesau?

Gwelliannau a diweddarau yn barhaus

- Bydd tracio elfennau sy'n amrywio yn allweddol
 - Micro: newid perchennog/staff, prosesau newydd, cyflenwyr newydd
 - Macro: digwyddiadau bwyd, newidiadau economaidd mawr
- Bydd gofyn sganio'r gorwelion a dadansoddi risg yn barhaus – sut i fonitro newidiadau yn y pethau sy'n achosi risg
- Dylai'r cyfrifoldeb fod ar weithredwyr busnesau bwyd i brofi/cadw cydnabyddiaeth o gydymffurfiaeth barhaus
- Dylid cynnal cynlluniau peilot gydag ALLau i brofi modelau risg wrth eu datblygu
- Methu "coethi" (gold plate) – sut i gydbwyso â nodau cydymffurfio?

Segmentu

- Os yw'r dull segmentu yn cymryd busnes allan o raglen arolygu arferol, pa fath o fusnes ddylai hwn fod, a pham?
- Ar ba lefel gydymffurfio y dylid gweithredu'r egwyddor 'cydnabod cydymffurfiaeth barhaus'?

Ymddiried ond gwirio cydymffurfiaeth

- Mae elfen o ymddiried yn orfodol – beth sy'n digwydd os caiff ymddiriedaeth ei chwalu?
- Cwestiwn agored ar sut i gadarnhau data wedi'i gyflwyno, a bod diweddariadau yn barhaus
- A oes modd segmentu Busnesau Mawr "allan"? Annhebygol ond efallai bod angen eu trin yn wahanol
- Posibl bod angen newid y model arolygu – os ydym ni eisoes ond yn ymweld unwaith bob ychydig flynyddoedd, sut ydych chi'n datblygu data am y busnes?
- Integreiddio technoleg fwy wrth adrodd – cod QR neu ddull tracio arall y gall defnyddwyr ei wirio
- Ystyried gweithredu bond/blaendal os cant eu segmentu allan - pa risgau real a chanfyddedig allai hyn eu creu?

Effaith segmentu ar adnoddau

- Cwestiynau agored am yr effaith ar adnoddau ar lefel ALLau - os caiff cyfundrefnau arolygu yn eu lleihau, a fydd effaith ar sgiliau?
- Ble mae'r Prif Awdurdod yn ffitio yn y broses segmentu?
- A yw'r ALL yn gyfrifol am gasglu mwy o ddata i gefnogi'r broses ddadansoddeg a modelu risg?
- Deall sut mae'r newidiadau yn y gyfundrefn rheoleiddio lechyd a Diogelwch wedi effeithio ar adnoddau, a sut y gellir adlewyrchu hyn mewn bwyd
- Os caiff ymweliadau â gweithredwyr busnesau bwyd eu lleihau, a fydd gostyngiad mewn sgiliau/gwybodaeth yn ehangach?

Categoriâu risg isel i'w segmentio allan

- Cytuno'n gyffredinol y dylid segmentu busnesau risg isel allan ond y gallai enwi'r categorïau hyn fod yn heriol
 - Cafeat efallai bod angen trin busnesau risg isel sy'n gweini cymunedau agored i niwed yn wahanol
- Gweithredwyr lle na fyddai llawer o effaith arnynt - addurnwyr cacennau, busnesau cartref ar raddfa fach gyda dosbarthiad bach, clybiau brechwast, clybiau ar ôl ysgol, eglwysi ac ati.
- Fferyllfeydd, siopau papur newydd, clybiau bach, siopau trwyddedig, banciau bwyd, busnesau A&S, peiriannau gwerthu, bwyd silff sefydlog/wedi'i lapio, cadwyni coffi cenedlaethol, atchwanegiadau iechyd
- Ffrwythau a llysiau, faniau cludo cig o bosibl, ceidwaid gwenyn
- Gellir eithrio busnesau mawr gyda phartneriaeth Prif Awdurdod gadarn hefyd

Cyffredinol

- Sut fyddai rôl "person cymwys ardystiedig" yn effeithio ar yr asesiad?
- Cyfeirio at waith sydd eisoes wedi'i wneud mewn cylchoedd academiaidd (Coleg y Brenin ac ati)
- Gofyn am gyfathrebu clir ar bwy sydd berchen ar y risg os aiff pethau o chwith
- Beth ellir ei gymryd gan Safonau Masnach – model dan arweiniad risg/gwybodaeth?

Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- Mae Strategaeth Arolygu Genedlaethol Prif Awdurdod yn golygu y gellir ymestyn y broses o asesu risg o un safle unigol 'ar draws y busnes cyfan' sy'n cymryd i ystyriaeth amrywiaeth helaeth o wybodaeth
- Arweiniodd yr ASB Astudiaeth Dichonolrwydd ar Strategaeth Arolygu Genedlaethol ar gyfer Prif Awdurdodau rhwng mis Ionawr a mis Mai 2017. Roedd hyn yn cynnwys 8 prif awdurdod, eu partneriaid, a Chyflawni Rheoleiddio (BEIS)
- Dyma'r meini prawf drafft a ddatblygwyd drwy'r astudiaeth:

<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Arolygu Genedlaethol yn briodol ar gyfer y math o fusnes • Mae'r Prif Awdurdod yn dangos ei fod yn gymwys • Mae'r busnes eisoes yn gweithredu'r mesurau diogelwch bwyd gofynnol • Prif Awdurdod i adolygu a chyhoeddi cyngor ar y system rheoli diogelwch bwyd • Prif Awdurdod i ddilysu gweithrediad y system rheoli diogelwch bwyd ac elfennau eraill yn ôl yr angen • Prif Awdurdod i adolygu a gwirio hanes cydymffurfio 	<ul style="list-style-type: none"> • Proses gadarn ar gyfer cyhoeddi Cyngor Prif Awdurdod a goruchwylio cydymffurfiaeth y busnes ar waith (e.e. mynediad at ddata, cwynion, archwiliadau (parti cyntaf, ail neu drydydd parti), samplu, adborth gan reoleiddwyr) • 'Mapiau' archwilio'r busnes i fodloni gofynion deddfwriaethol • Tystiolaeth i nodi yr eir i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio • Tystiolaeth o adolygu gan gymheiriaid neu feincnodi
---	---

- Bydd yr ASB yn cefnogi nifer bach o bartneriaethau i roi cynnig ar Strategaeth Arolygu Genedlaethol fel dull 'canfod trywydd' ar raddfa fach (cynllun peilot)



Cwestiynau a holwyd

- Beth yw eich safbwyntiau ar y meini prawf drafft? A oes unrhyw feini prawf ar goll? A oes unrhyw rai yn ddi-angen?
- "Mae'r prif awdurdod yn dangos ei fod yn gymwys", Sut ydych chi'n meddwl ddylai dangos y meini prawf hyn edrych yn ymarferol?

Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- Beth yw eich safbwyntiau ar y meini prawf drafft? A oes unrhyw feini prawf ar goll? A oes unrhyw rai yn ddiangen?
- “Mae'r prif awdurdod yn dangos ei fod yn gymwys”, Sut ydych chi'n meddwl ddylai dangos y meini prawf hyn edrych yn ymarferol?

Cyfathrebu clir a thryloywder

- Datblygu safonau ar gyfer gweithredu Strategaeth Genedlaethol yn agored er mwyn sicrhau bod pawb sydd ynghlwm yn deall ac yn cytuno ar eu rolau
- Sut y bydd ALLau y mae'r Strategaeth yn effeithio arnynt yn gallu rhoi adborth ar y cynllun a'r broses o'i weithredu?
- Bydd rhestr gynhwysfawr o gwynion / materion ar draws canghennau lleol yn cael eu cynnwys ag adroddiadau ALLau
- Bydd cyfathrebu rhwng Prif Awdurdodau yn bwysig – mae rhai wedi tyfu'n organig a/neu yn well nag eraill
- Darparu / diffinio adnoddau ar gyfer cyfathrebu a rhannu data yn wasanaeth craidd – bydd parti cyfrifol priodol yn cael ei nodi
 - Potensial i ddarparu cofrestr ganolog o bawb sy'n cymryd rhan mewn Strategaeth Arolygu Genedlaethol i gefnogi tryloywder ar draws y broses

Meini prawf drafft yr ASB

- Angen nodi a chynnwys tystiolaeth ar gyfer y meini prawf – gall adolygu gan gymheiriaid fod yn bwysig, yn arbennig wrth ddatblygu rhaglenni cychwynnol
 - Pryder y byddai ALLau yn gwirio beth mae busnesau eisiau iddynt wirio, ac nid beth sydd angen ei wirio
- Angen i'r broses fod yn gadarn – sut ydym ni'n cadarnhau bod yr hyn sy'n cael ei adrodd yn ffeithiol?
- Sut y bydd cwynion gan ddefnyddwyr ar lefel ALI yn cael eu bwydo'n ôl a'u hymgorffori yn rhaglen y Strategaeth Arolygu Genedlaethol?
- Bydd angen i fanylion y strategaeth arolygu fod yn gytbwys ac yn gymesur – gall strategaeth rhy ragnodol arwain at golli diddordeb
- Ceisio mwy o eglurder ar sut y bydd yn cynnwys Hylendid a Safonau
- Ffocws ar sail dystiolaeth – ar gyfer nodi risgiau a chanlyniadau

Rheoli gan weithredwyr busnesau bwyd lleol

- “Dim ond cystal a'r rheolwr yn y siop yw'r Strategaeth Arolygu Genedlaethol”
 - Mae safonau cenedlaethol yn bwysig, ond gall y broses weithredu amrywio yn eang mewn canghennau
- Pa ganllawiau a fydd yn cael eu datblygu i sicrhau bod pob cangen yn cydymffurfio ac y caiff amrywiadau ar draws siopau eu rheoli?
 - Angen i'r llif gwybodaeth o'r rheoleiddiwr i'r brif swyddfa i'r siop leol fod yn effeithiol
 - Angen i wybodaeth i fyny'r gadwyn o'r siop leol, i'r brif swyddfa i'r rheoleiddiwr weithio hefyd
- Deall y bydd strwythur rheoli'r busnes yn bwysig i nodi unrhyw mannau gwan posibl

Cysondeb wrth weithredu

- Mae'n rhaid i'r ASB fod yn Awdurdod Cymwys Canolog
 - Cyhoeddi canllawiau clir i fusnesau i gefnogi Strategaeth Arolygu Genedlaethol ac hefyd i sicrhau eu bod yn gwrandao ar gyngor a hefyd
- Mae angen deall a chyfiawnhau amrywiadau mewn strategaethau yn glir – methu cael "loteri cod post" pan mae'n dod i orfodi
- A fydd gan ALLau y gallu i fonitro a gorfodi Strategaeth a allai effeithio arnynt – beth fydd eu cyfrifoldebau?
- Bydd tryloywder a chysondeb mewn costau yn cynyddu lefelau ymddiried a mabwysiadu
- Bydd angen i fanylion cyflenwi'r gwasanaeth fod yn glir – efallai bydd haenau amrywiol yn gweithio ond bydd angen eu hamlinellu
 - Bydd angen teilwra hyn yn ôl "math o fusnes", ond bydd rhaid iddo fod yn gyson yn fewnol ar draws categorïau

Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- Beth yw eich safbwyntiau ar y meini prawf drafft? A oes unrhyw feini prawf ar goll? A oes unrhyw rai yn ddi-angen?
- "Mae'r prif awdurdod yn dangos ei fod yn gymwys", Sut ydych chi'n meddwl ddylai dangos y meini prawf hyn edrych yn ymarferol?

Adnoddau ALLau a pharhad

- Angen sefydliadu (*institutionalise*) gwybodaeth am weithredwyr busnesau bwyd i sicrhau nad oes gwybodaeth allweddol yn mynd ar goll os yw'r swyddog yn newid
 - Beth os yw'r arbenigwr yn symud i ALI arall neu'n mynd yn breifat?
- A fydd angen arbenigedd yr ALI ar swyddog y Prif Awdurdod i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol?
- Sut mae ALLau yn integreiddio strategaeth y Prif Awdurdod i'w rhwymedigaethau adnoddau lleol – diffinio rolau yn glir
 - A fydd awdurdodau lleol yn cael iawndal am gefnogi strategaethau?
- Disgwyliad cyffredinol y dylai'r busnes dalu am gostau ychwanegol rhaglenni sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Arolygu Genedlaethol
- Angen cydbwysio anghenion andoddau ALLau â gallu creu incwm Prif Awdurdod – peth pryder am bwysigrwydd yr incwm hwn o ran proses benderfynu ALLau

Hyder ac annibyniaeth

- Mae'n rhaid i Brif Awdurdodau, o ran ymarfer ac ymddangosiad, fod yn archwilwyr annibynnol na chânt eu gweld yn "amddiffyn" neu'n "ymosod" ar y busnes
- Mae'n rhaid iddynt fod â'r cymhwysedd technegol i ddeall nid yn unig y system fwyd, ond y swm enfawr o ddata sy'n sail i fusnes modern
- Mae'n rhaid iddynt fod â'r gallu i herio'r busnesau maent yn gweithio â nhw mewn ffordd adeiladol, a chael eu gweld yn gwneud hynny
- A oes gwrthdaro gyda BEIS, CSHB ac ati?
 - Yn gyffredinol, bydd y berthynas â'r CSHB yn bwysig iawn ac mae angen ei harchwilio'n drylwyr
- Sut allwch chi ddangos cymhwysedd Prif Awdurdod o'r Diwrnod Cyntaf?

Gwella yn barhaus

- Dylai Prif Awdurdodau barhau i gydweithio i ddysgu arferion gorau – a fydd proses adolygu gan gymheiriaid hefyd?
- Gall meysydd arbenigol a ffocws godi – sut i reoli, tracio a meithrin arbenigedd?
- Angen mecanwaith i ALLau allu rhoi adborth i Brif Awdurdodau ac i'r Awdurdodau eu hymgorffori
 - A ddylai ALLau gynnal gwiriadau ar hap?
- Sut mae'r ASB yn herio Prif Awdurdod nad yw'n darparu lefel briodol o oruchwyliaeth a chanllawiau?
- A oes modd gwella / symleiddio'r rhyngweithio â'r system gyfreithiol drwy'r strategaeth hon?

Cyffredinol

- A yw'r Prif Awdurdod yn gallu dangos dealltwriaeth o bob safle?
- A yw'n gallu dangos bod ganddo'r adnoddau a'r profiad angenrheidiol i reoli'r strategaeth?
- Cymhwysedd clir a datblygiad proffesiynol parhaus staff i gefnogi
 - Mewn meysydd arbenigol o bosibl gyda system sy'n galluogi grwpiau i "brynu sgiliau mewn"
- A oes modd darparu dangosfwrdd adrodd safonol i gefnogi'r broses o reoli canghennau gweithredwr busnes bwyd sydd wedi'u dosrannu?
- Gall lefelau integreiddio priodol â chyrff masnachu fod yn werthfawr
- Bydd ymddiriedaeth yn y system a'r Prif Awdurdod penodol yn hanfodol
 - Gall rhaglen gyfathrebu eang i gefnogi'r broses gyflwyno fod yn briodol

Archwiliwr Rheoleiddio Ardystiedig (ARA)

- Cyflwyno'r cysyniad ARA gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar ddata sicrwydd, cynyddu effeithiolrwydd, ac alinio a mentrau ehangach y llywodraeth
- Byddwn ni'n disgwyl gweld manteision o ran:
 - Adnoddau ac arian ar gyfer gweithgareddau sicrwydd
 - Lleihau baich arolygiadau a raglennir – ALI i flaenoriaethu adnoddau a chynnig arbenigedd
 - Cost sicrwydd yn ei gyfanrwydd i fusnesau
 - Arbenigedd technegol ychwanegol mewn sefydliadau risg uchel
 - Gyrru cysondeb ac ansawdd sicrwydd preifat
- Ond rydym ni'n rhagweld pryderon ynghylch:
 - Diffyg annibyniaeth gan y busnes sy'n eu talu
 - Safbwyntiau rhagfarnlyd / ffafriol i'w cleientiaid
 - Nid oes gan archwiliwyr preifat yr un cymhwysedd ag ALLau
 - Ni fydd cael swyddogion ALLau a'r sector preifat yn yr un gofod yn gweithio
- ***Mae'r pwnc hwn yn dal i fod yn y camau cynnar, ac rydym ni wir angen eich mewnbwn fan hyn***



Cwestiynau a holwyd

- Sut allwn ni adeiladu ymddiriedaeth yn y cysyniad ARA ar gyfer: Defnyddwyr, Rheoleiddwyr, Busnesau
- Sut allwn ni ddatblygu'r cysyniad ARA i weithio'n effeithiol ochr yn ochr â darpariaeth awdurdodau lleol?

Archwiliwr Rheoleiddio Ardystiedig (ARA)

- Sut allwn ni feithrin ymddiriedaeth yn y cysyniad ARA ar gyfer: Defnyddwyr, Rheoleiddwyr, Busnesau
- Sut allwn ni ddatblygu'r cysyniad ARA i weithio'n effeithiol mewn paralel â darpariaeth ALLau?

Canfyddiad o wrthdaro buddiannau posibl

- Os yw'r ARA yn cael ei dalu gan weithredwr y busnes bwyd, mae posibilrwydd o wrthdaro
 - A fydd yr ALLau a'r cyhoedd yn derbyn y gall yr ARAs ddarparu'r gwasanaethau a arferai gael eu cynnal gan ALLau yn effeithiol?
- Sut i ddatblygu perthynas weithio dda rhwng yr ARA a swyddogion gorfodi'r ALI os ydynt mewn sefyllfaoedd sy'n gwrthdaro?
 - A fydd angen mesurau i reoli prisiau er mwyn osgoi ras i'r gwaelod?
- Yn gyffredinol, pa rôl mae codi tâl yn ei chwarae yn y drafodaeth, a sut fyddai marchnad ar gyfer y gwasanaethau hyn yn edrych?
- Sut caiff hyn ei ddatblygu mewn ffordd sy'n ategu gwasanaethau ALLau
 - Angen eglurder ar sut mae hyn yn elwa ALLau a'r defnyddwyr maent yn eu gwasanaethu

Pryderon adnoddau ALLau

- Pa ganran o fusnesau fydd yn dewis y llwybr hwn, a sut fydd hyn yn effeithio ar fesurau cynllunio adnoddau ALLau?
- A fydd ALLau yn colli adnoddau a gwybodaeth i'r sector preifat
 - Sut fydd hyn yn effeithio ar waith arall?
- A fydd ALLau yn cael eu gadael â busnesau gwael nad ydynt yn cydymffurfio?
 - A yw ALLau yn y lle gorau i ddelio â'r busnesau hyn, felly a yw'r canlyniad hwn yn ddymunol?
- Dylai ALLau gystadlu ag ARAs preifat os dymunir
 - I'r gwrthwyneb, allai ALLau gyflogi ARAs?
- Efallai bod angen ariannu uniongyrchol/model adfer costau (ariannu cynaliadwy)

Diffiniad o'r rôl trosolwg

- Bydd gosod safonau gan yr ASB yn ganolog – faint o reolaeth a ddylid ei arfer (hyfforddiant, adrodd, meini prawf arolygu ac ati)
- Ble mae'r risg/cyfrifoldeb yn disgyn os yw pethau'n methu – yr ASB/Gweithredwr y Busnes/Archwiliwr/ALI/ac ati?
 - Mae'r ALI yn dal i fod yn gyfrifol am ymyrryd/gorfodi – a fydd dal ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i weithredu ar broblemau?
- Sut, pryd, ac i bwy mae'r ARA yn adrodd?
- Sut a phryd gellir cael gwared ar ARA?
- Sut fydd ALLau yn rheoli cwynion gan ddefnyddwyr am fusnesau wedi'u sicrhau gan ARA – pwysig bod yn glir nad yw'r ARA yn cyfarwyddo'r ALI
- Gall system debyg i RIDDOR fod yn ddefnyddiol - dim eisiau LAEMS arall

Fframwaith achredu

- O ble daw'r diffiniad o'r safonau a'r cymwysterau sydd eu hangen – gan yr ASB?
- Dangos cymhwysedd a safonau yn bwysig – sut mae Archwiliwyr yn dangos sgiliau ac yn eu datblygu yn barhaus?
- Bydd angen adnoddau ARA arbenigol – bydd hyn yn creu "marchnad" ar gyfer y sgiliau dan sylw sy'n effeithio ar ALLau?
- Bydd angen cofrestr ganolog a thryloyw ar gyfer ARAs ac o bosibl "Ymgynghorwyr Diogelwch Bwyd"
- Byddai hyfforddiant a datblygu methodoleg ar gyfer ARAs yn floc adeiladu craidd ar gyfer y rhaglen
 - Sut fyddai hyn yn cael ei ddarparu, a gan bwy?

Archwiliwr Rheoleiddio Ardystiedig (ARA)

- Sut allwn ni feithrin ymddiriedaeth yn y cysyniad ARA ar gyfer: Defnyddwyr, Rheoleiddwyr, Busnesau
- Sut allwn ni ddatblygu'r cysyniad ARA i weithio'n effeithiol mewn paralel â darpariaeth ALLau?

Derbyniad a chanfyddiad busnesau

- Allwn ni ragweld pa gyfran o fusnesau fydd yn mabwysiadu'r opsiwn ARA?
- A fyddant yn talu am hyn os oes yn rhaid i ALI eisoes ei wneud am ddim?
- Sut mae hyn yn newid os yw'r model Ariannu Cynaliadwy yn cael ei weithredu?
- A fydd gan fusnesau ffydd y bydd yr ARA yn darparu'r un lefel o wasanaeth â'r ALI?
- A fydd busnesau'n teimlo y gall defnyddwyr boeni bod risgiau - h.y. efallai nad oes gan ddefnyddwyr yr un hyder mewn archwiliwr ALI o'r 'tu allan'?
- Beth yw'r achos dros newid dros gyflwyno ARAs o safbwynt y busnes – allwn ni fesur y manteision?

Effaith gorfodi

- Sut fyddai ARA yn gweithredu os oes angen camau gorfodi? Os yw y tu allan i oriau gweithio arferol ALI, beth sy'n digwydd?
- Sut caiff archwiliwr ei gosbi am beidio â chyflawni ei rôl yn effeithiol
 - ALI yw perchennog terfynol y risg o hyd
- Pryd mae'n dod yn orfodol i roi gwybod am broblemau neu achosion o ddiffyg cydymffurfio?
 - Pryd ddylai'r ARA helpu i ddatrys problem a phryd ddylid cyfeirio'r mater at yr ALI?
 - Problemau â phlâu yn aml yn nodi problemau ehangach – sut fyddai ARA yn rheoli hyn?
- Beth yw canlyniadau peidio â chydymffurfio a sut caiff y broses bontio o ARA i ALI ei rheoli?
- A fydd gorfodi drwy'r llys yn dod yn fwy heriol gydag ARA?

Cyfathrebu ac apelio

- A yw'r ASB yn gallu/a ddylai'r ASB fod yn hwb data canolog i gefnogi gweithrediadau ARAs?
 - A yw hyn yn rhan o'r "Peth"?
- Llif data cynhwysfawr, tryloyw ac effeithiol ar draws pob parti yn hanfodol
- Beth os yw'r ASB/ALI yn anghytuno â chanfyddiadau'r ARA – beth os yw'r busnes yn anghytuno?
- Negeseuon clir a chyhoeddusrwydd yn egluro'r trefniant a'r dystiolaeth i gefnogi hynny
- Bydd cyfathrebu rhwng ALLau yn angenrheidiol
 - Sut i gefnogi gwelliant rhwng gwahanol ALLau lle mae un ARA yn gallu effeithio arnynt?

Cyffredinol

- Pan oedd pobl yn lleisio pryderon am y cysyniad hwn, yn aml roedd yn ymwneud â diffyg ymddiriedaeth yn y diwydiant i ddarparu'r gwasanaethau hyn
 - Hyder a chanfyddiad defnyddwyr wrth wraidd hyn
- Ble mae gofyn i'r ASB/ALLau fod yn rhagweithiol a ble ddylent fod yn adweithiol?
- Bydd rhannu data yn hanfodol – sut i reoli rhwymedigaethau preifatrwydd, diogelwch, llywodraeth ac ati.
- Risg – pwy sy'n atebol, pwy sydd ag indemniadau (pa ddiwydiannau allwn ni ddysgu ganddynt e.e. nwy)
- Byddai'n rhaid egluro'r berthynas CSHB
- A yw'r cysyniad ARA yn ychwanegu digon o werth i orbwysu'r cymhlethdod gweithredu?

Penodol i ranbarth

- Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd negeseuon yn weddol gyson ar draws yr wyth rhanbarth yn Lloegr, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y sleidiau.
- Fodd bynnag, yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, lle mae deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i arddangos sgoriau, roedd gwahaniaethau sylweddol yn y trafodaethau ar sicrwydd preifat wedi'i reoleiddio.
- Pan fo'r gyfraith yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau er mwyn pennu sgoriau'r CSHB, mae rhwystr i'r modd y gellir gweithredu'r cysyniad ARA.
- Fodd bynnag, roedd tebygrwydd i'r ALLau yn Lloegr ar y syniadau a gyflwynwyd ar gyfer Cofrestru Manylach a Segmentu

Gogledd Iwerddon

Cofrestru

- Barn gref y dylai'r ASB gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig neu Drwydded i Fasnachu yn hytrach na chyflwyno mesurau cofrestru manylach eraill. Ystyriwyd mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod busnesau newydd yn cofrestru'n gynnar neu lle'r mae'r perchnogion yn newid
- Ystyriwyd na fyddai'r awgrym o gael mecanwaith lle mae busnesau yn diweddarau eu manylion yn rheolaidd yn gweithio. Byddai lefelau ymateb gweithredwyr busnesau bwyd yn isel a byddai angen llawer o adnoddau pe bai ALLau yn gorfod mynd ar drywydd busnesau nad oedd yn ymateb.
- Gellir defnyddio'r CSHB fel lifer ar gyfer gwirio a chofrestru gorfodol (byddai'n gweithio yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, lle mae'r cynllun yn orfodol).
- Newidiadau posibl i Bennod 5 y Cod (e.e. cynnwys methiant i gofrestru yn y sgôr Hyder mewn Rheolwyr). Byddai hyn yna'n effeithio ar eu sgôr hylendid, os yw o fewn cwrmpas y cynllun.
- Defnydd posibl o adnoddau gorfodi presennol, sydd eisoes ar gael os nad yw busnes yn cofrestru

Segmentu

- Credir ei bod yn briodol bod rhai mathau o fusnesau risg isel yn cael eu segmentu allan o'r rhaglen o ymyriadau a raglennir.
- Credir bod modd cydnabod cydymffurfiaeth barhaus (sgôr Cod o 5), ond pryderon ynghylch y cyfnod o amser y byddai sgôr CSHB yn cael ei dyfarnu. Ni fyddai'r sgôr yr un mor ystyrion.
- Herio cymhlethdod y dull newydd. Byddai'n galw am lawer o adnoddau, ac ni fyddai'n arwain at fanteision arwyddocaol i gyfiawnhau hyn. Byddai newidiadau syml i'r Cod yn arwain at ragor o fanteision yn gyflymach.
- Cwestiynu'r effaith ar y CSHB wrth segmentu.
- Cyfeiriodd rhai at segmentu sefydliadau eraill nad ydynt yn cael eu gyrru'n fasnachol, sy'n cydymffurfio'n dda yn gyffredinol ac sydd â systemau mewnol generig ar waith, e.e. ysgolion, ysbytai, carchardai (felly nid oedd pob ffocws ar segmentu busnesau risg isel). Roedd eraill yn dadlau na fyddai hyn yn briodol oherwydd y grwpiau agored i niwed dan sylw.

Prif Awdurdod/Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- Pwysig bod y Prif Awdurdod yn arbenigwyr yn y maes
- Angen sicrwydd – nid 'amddiffynfa' ar gyfer busnesau yn unig yw'r Prif Awdurdod. Swyddogion GI yn teimlo mai dyma'r achos mewn profiadau blaenorol
- Credu nad yw'r system Prif Awdurdod bresennol yn gadarn – archwilio/trosolwg o'r Prif Awdurdod yn hanfodol
- Pryderon sut fyddai'r CSHB yn gweithio gyda Strategaeth Arolygu Genedlaethol

ARA

- Gwrthwynebiad cryf i'r cysyniad ARA – credu ei fod yn haen arall o fiwrocratiaeth. Pwy fydd yn goruchwyllo/archwilio ARAs?
- Eto i weld ymchwil defnyddwyr i gyfiawnhau'r newid – angen gwybod a yw busnesau wir yn dyheu am hyn
- Nodwyd ei fod yn golygu bod ARAs yn cystadlu ag ALLau – ddim yn teimlo bod hyn yn deg
- Credu y byddai'n dwyn adnoddau gan ALLau – effaith ehangach na bwyd yn unig
- Ni fyddai gan ARAs yr wybodaeth ehangach sydd ei hangen i ddeall risg y busnes yn gyffredinol. I'r gwrthwyneb, byddai ALLau yn colli ffynhonnell ddata a allai fod yn angenrheidiol i'w rôl ehangach
- Cred gyffredinol na ellir ymddiried mewn sicrwydd preifat, ac y byddai'n niweidiol i system sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd

Cyffredinol

Cred nad oedd amgylchiadau tirwedd rheoleiddio Gogledd Iwerddon yr un peth â Lloegr ac nad oedd angen yr un 'atebion'. 'Nid yw'r system wedi torri, ac felly nid oes angen ei thrwsio'

Cymru

Cofrestru

- Llawer o fusnesau nad ydynt yn cofrestru nawr a chaiff y newid mewn gweithredwr ei nodi wrth ymyrryd/arolygu
 - Sut fydd y system newydd yn rheoli hyn?
- Cefnogaeth dros gael 'un gronfa ddata' genedlaethol ar gyfer busnesau bwyd
 - Sut fyddai hyn yn gweithio yn ymarferol a sut fyddai ALLau yn bwydo i mewn i hyn?
- O bosib yn ddefnyddiol edrych ar faint o safleoedd heb eu cofrestru nad ydynt yn cydymffurfio ar yr arolygiad cyntaf
- Mae Rhentu Doeth Cymru yn darparu system ddigidol ar gyfer landlordiaid preifat a gallai ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ar sut y cafodd y system ei gweithredu a'r heriau

Segmentu

- Cefnogaeth gan Safonau Masnach am ddull asesu risg sydd wedi'i lywio fwy gan wybodaeth (*intelligence*)
- Angen eglurder o ran sut y byddai'r system yn trin safleoedd Gweithrediadau'r ASB
 - Trefniadau archwilio ar gyfer safleoedd risg uchel
 - Gall safleoedd sy'n cynhyrchu a phrosesu bwyd wedi'i goginio a bwyd parod i'w fwyta dymuno trosglwyddo'r cyfrifoldeb gorfodi i ALLau sydd â phrofiad a chymwyseddau ar gyfer arolygu'r safleoedd hyn
- Mae asesiad risg ar y cyd ar gyfer hylendid, safonau a bwyd anifeiliaid yn anodd
 - Gall sefydliad sy'n peri risg uchel o ran hylendid beri risg isel o ran safonau, ac i'r gwrthwyneb

Prif Awdurdod/Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- Mae arolygiadau sgorio wedi'u rhagnodi mewn cyfraith o dan y Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru
 - Sut fydd hyn yn gweithio pan fo'n rhaid asesu pob busnes yn llawn oni bai ei fod wedi'i eithrio?
- Gall materion gweithredu lleol godi a gellir eu colli os nad yw'r Strategaeth Arolygu Genedlaethol yn gofyn am ymyrryd â'r busnes

ARA

- Canfyddiad bod rheoleiddio bwyd yn cael ei breifateiddio drwy'r 'drws cefn'
- Cynllunio gwasanaethau ac adnoddau yn anoddach gan na fydd modd pennu faint o fusnesau fydd yn defnyddio'r opsiwn ARA
 - Gall amrywio yn ôl proffil busnes o fewn ALI
 - Mae'n bosibl bod mwy o gwmnïau rhyngwladol mewn un ardal a allai fod â diddordeb

Cyffredinol

- Mesurau cynllunio gwasanaeth a dyrannu adnoddau ALLau yn gysylltiedig â'r cynllun arolygu
 - Sut fydd ALLau yn diogelu adnoddau os yw'r dull yn newid?
- Swyddogion bwyd yn colli sgiliau – caiff cymhwysedd a phrofiad eu datblygu drwy arolygu gwahanol fathau o fusnesau bwyd
 - Gall y dull leihau cysylltiad swyddogion â mathau penodol o fusnesau a phrosesu cynhyrchu bwyd penodol
- Canfyddiad o golli gallu i ddelio â digwyddiadau, sgandalau ac achosion
 - Posibl bod llai o swyddogion bwyd a fyddai'n gallu ymateb i ddigwyddiadau mawr